

DANGOSFWRDD CIG COCH

Medi – Rhagfyr 2019

% o'r holl weithgaredd yn ystod
y cyfnod hwn sy'n berthnasol
i'r sector cig coch



Rhwydwaith Arddangos

Ffordd awtomataidd o ganfod a yw buwch yn y cae yn gofyn tarw

Mae prosiect yn canolbwyntio ar ffordd awtomatig o ganfod a yw buwch yn y fuches biff sugno yn gofyn tarw wedi dod i ben yn ddiweddar ar fferm Orsedd Fawr, Pwllheli. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r system Moocall i ganfod pa wartheg oedd yn gofyn tarw.

Fel buches sy'n lloia yn y gwanwyn, mae'r gwartheg allan ar y borfa yn ystod y cyfnod troi at y tarw, gan wneud ffrwythloni artiffisial yn anodd. Trwy ganfod pa wartheg a oedd yn gofyn tarw, roedd y ffermwr yn gallu rhannu'r gwartheg hynny oddi wrth y lleill gan hwyluso'r dasg o ffrwythloni artiffisial (AI). Gan ddefnyddio AI, mae mwy o eneteg ar gael i ddewis o'u plith.

Roedd canlyniadau terfynol y prosiect yn dangos bod pob un o'r gwartheg wedi cael eu canfod yn gofyn tarw a'u cyflwyno ar gyfer AI o leiaf unwaith rhwng 3 Gorffennaf a 30 Gorffennaf 2019, ac erbyn hynny roedd pob gwelltyn wedi'i ddefnyddio. Yna, cafodd tarw cyflawn ei gyflwyno i'r fuches.

Trwy ddefnyddio canlyniadau sganio a'r dyddiad AI, mae'n ymddangos bod 26 o'r gwartheg wedi beichiogi o ganlyniad i'r gylchred gyntaf o AI, gan roi cyfradd cyfloi o 52% ar gyfer yr AI. Mae'n werth nodi bod 3 o'r 50 o wartheg yn wag, ac ni wnaethant feichiogi ar ôl cael eu cyflwyno i'r tarw chwaith. Pe byddem yn tynnu'r rhain o'r cyfrifiadau, mae'r gyfradd cyfloi yn cynyddu i 55%.

Gwella rheolaeth pridd a da byw er mwyn storio mwy o garbon a lleihau ôl troed carbon y fferm

Mae safle arddangos Hendre Ifan Goch ger Pen-y-bont yn anelu at bennu ffigwr cydbwysu carbon ar gyfer y fferm trwy gynnal archwiliad carbon ar draws y fferm gyfan gan ddefnyddio cyfrifiannell cyfrifo ôl troed carbon. Mae'r fferm yn bwriadu adnabod lefelau presennol y deunydd organig yn y pridd gyda'r nod o ganfod ffyrdd o gynyddu lefelau carbon yn y pridd trwy wahanol ddulliau rheoli.

Y cam cyntaf oedd adnabod y caeau er mwyn gallu dechrau ar y gwaith o gasglu samplau pridd a llunio gwaelodlin ar gyfer y stoc carbon mewn gwahanol ardaloedd o'r fferm.

Defnyddio technoleg i wella dulliau monitro iechyd i wella patrwm lloia, cyfraddau beichiogi a lleihau colledion lloia

Mae safle arddangos Moelogan Fawr ger Llanrwst yn awyddus i ddefnyddio technoleg newydd i wella dulliau casglu data ar y fferm, gyda'r nod o wella perfformiad y fuches sugno. Bydd bolws yn cael ei ddefnyddio gyda'r gwartheg sy'n cysylltu gyda'r rhwydwaith LoRaWAN ac yn darparu diweddariadau parhaus a fydd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â chanfod gwartheg yn gofyn tarw, pan fo buwch ar fin bwrw llo ac iechyd cyffredinol y gwartheg.

Roedd gwaith a wnaed ym mis Tachwedd yn cynnwys gosod offer ar y fferm i sicrhau bod LoRaWAN yn gallu cyrraedd pob rhan o'r safle i gofnodi'r gwartheg lle bynnag bo angen.

Gwella perfformiad gwartheg sugno a'r fenter biff: edrych ar y system gyfan

Mae safle arddangos Bryn ger Aberteifi yn edrych ar ddefnyddio meincnodi fel ffordd o fonitro perfformiad y busnes er mwyn gwella effeithlonrwydd. Mae'r fenter eisoes yn perfformio'n dda, ond bydd monitro pellach yn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn broffidiol gan fod newidiadau i'r marchnadoedd a pholisïau'r llywodraeth yn annatod dros y misoedd nesaf.

Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gydag arbenigwyr yn y diwydiant yn canolbwyntio ar opsiynau ar gyfer pesgi anifeiliaid o'i gymharu â gwerthu fel anifeiliaid stôr, a'r effaith mae hynny'n ei gael ar ofnyion porthiant a bwyd. Mae clefydau, gan gynnwys Johnie, yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda phroffidioldeb y fuches a gweld a bydd canfod a yw'r clefyd yn bresennol yn y fuches yn hanfodol.

Rheoli'r newid – gwartheg sugno i wartheg biff

Mae safle arddangos Cefn Llan ger Llangamarch ar hyn o bryd yn y broses o newid o'r fenter wartheg sugno draddodiadol i fagu lloia biff llaeth sy'n cael eu prynu i mewn. Bydd y prosiect hwn yn darparu templed ar gyfer deall y penderfyniadau a'r ystyriaethau'n ymwneud â dechrau menter newydd fel hon, yn ogystal â chreu glasbrint ar gyfer rheoli menter biff llaeth cost isel yn seiliedig ar borthiant. Er na fydd y lloia cyntaf yn cyrraedd y fferm tan fis Ebrill 2020, mae'r fferm wedi bod yn paratoi'r ardal bori yn barod.

Ym mis Tachwedd 2019, mesurwyd gorchudd glaswellt y fferm gyfan gan ddefnyddio mesurydd plât, a chafodd y data ei fewnbynnu i feddalwedd AgriNet i weld faint o borthiant a oedd ar gael ar gyfer y stoc presennol ar y fferm.



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau Technegol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- Y DEFNYDD O OLEWU NAWS PERLYSIEUOL FEL RHAN O FAETHIAD MOCH – A OES MANTEISION I HYNNY?
- NWYDDAU CYHOEDDUS A FFERMIO

Agrigôp



CYNHALIYD

59 O GYFARFODYDD AR
THEMA CIG COCH GYDA

322

O FNYCHWYR

Roedd themâu'r grwpiau'n cynnwys



Carbon yn yr
ucheldiroedd



Blychau cig
gwartheg
byrgorn



Bridiau
cynhenid

Rhaglen Fentora

60

O FFERMWYR CIG COCH
NEWYDD YN DEFNYDDIO'R
RHAGLEN FENTORA

405

O FFERMWYR CIG COCH
YN CAEL EU MENTORA AR
HYN O BRYD

84%


O'R HOLL FENTAI
YN FFERMWYR CIG
COCH

8

O'R UCHOD
YN FFERMWYR
MOCH




Roedd mentai newydd yn chwilio am arweiniad ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys:



Cynyddu'r defnydd
o borthiant



Rheoli glaswellt



Cymryd yr awenau ar
denantiaeth fferm



Bridio moch

Grwpiau Trafod



CYNHALIUYD **58**
CYFARFOD GRWPIAU
TRAFOD CIG COCH

gyda



481
O FNYCHWYR

Nifer y Grwpiau Trafod Cig Coch: 33

Astudiaeth Achos

Grŵp Trafod Biff y Gŵyr

Bu Miriam Parker yn ymweld â Grŵp Trafod Biff Gŵyr er mwyn edrych ar arferion y grŵp wrth drin anifeiliaid ar gyfer tasgau megis cynnal profion TB.

Dechreuodd Miriam drwy drafod y ffactorau y mae'r grŵp yn eu profi wrth weithio gyda gwartheg. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- Hierarchaeth y fuches
- Arwyddion o rybudd ymysg anifeiliaid (pen, cynffon ayb)
- Greddfau anifeiliaid, ynghyd â rhoi syniad o'r hyn y mae buwch yn ei weld pan mae'n cerdded/symud, gan ddefnyddio sbectol arbennig a ddarparwyd gan Miriam.

Roedd ail ran y cyfarfod yn cynnwys taith gerdded gyda Miriam i edrych ar system i drin da byw ar y fferm. Bu Miriam yn trafod pob agwedd o'r iard wartheg a'r cyfleusterau trin, ynghyd â thrafodaeth fanwl o'r lle angenrheidiol ar yr iard gasglu, a mesuriadau'r cyfleusterau trin. Bu hefyd yn trafod pwysigrwydd lleihau faint o amser mae'r da byw'n ei dreulio yn y cyfleusterau trin er mwyn lleihau straen, sy'n gallu effeithio ar eu perfformiad yn y pen draw.

Bydd manteision y cyngor a dderbyniwyd yn:

GALLUOGI FFERMWYR I WEITHIO'N FWY
CYNHYRCHOL GYDA'U DA BYW



GWELLA CYNHYRCHIANT Y STOC TRWY
GADW LEFELAU STRAEN YN ISEL



ARBED AMSER



GWEITHIO MEWN
MODD DIOGEL



Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 26 Digwyddiad gyda 639 o fynychwyr

PARATOI AR
GYFER WYNA



MYNEDIAD AT
GYNGOR TECHNEGOL



Diogelu eich busnes fferm ar gyfer CENEDLAETHAU'R
DYFODOL – a yw menter ar y cyd yn opsiwn?



*Mae themâu Digwyddiad Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn croesi sawl sector sy'n dueddol o ddenu ffermwyr o bob sector gan gynnwys y sector Cig Coch.

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 28 Cymhorthfa



2 GYMORTHFA ADOLYGU
BUSNES DIGIDOL

9 CYMHORTHFA
CYNLLUNIO

9 CYMHORTHFA MARCHNATA
AC ARALLGYFEIRIO

2 GYMORTHFA FFERMWYR
TENANT

6 CYMHORTHFA
OLYNTIAETH

*Mae cymorthfeydd yn ddigwyddiadau traws-sector ac yn gymysgedd o ffermwyr o bob sector, gan gynnwys ffermwyr o'r sector Cig Coch.

Mentor

3 DARPARWR
CIG COCH
NEWYDD

6 CEISIWR
CIG COCH
NEWYDD

4 PÂR POSIBL YN Y SECTOR CIG
COCH WEDI'I GANFOD YN
YSTOD Y CHWARTER

6 PARTNERIAETH CIG COCH

yn derbyn cefnogaeth drwy'r
Gwasanaeth Cyngori ar hyn
o bryd

10 menter ar y cyd newydd
wedi cael eu sefydlu drwy
Mentor yn ystod y cyfnod hwn


Cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd:

Nifer y cyfleoedd sy'n
cael eu cynnig:



12 UNED
CIG COCH

Cyfanswm y tir
sydd ar gael:



602 HECTAR
(UNEDAU CIG
COCH YN UNIG)

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



Cynhaliwyd

54
GWEITHDY

gyda



859
O FNYCHWYR

Gweithdai a gynhaliwyd:

Dolur Rhydd Fyrsol
Buchol (BVD)



Deall Clefyd Johne



Colledion Wyna Rhan 1:
Erthyly a Maeth



Colledion Wyna Rhan 2:
Colledion ar ôl wyna rhwng Genedigaeth a Diddyfnu



Rheoli Parasitiaid mewn Defaid Rhan 2:
Clafr, Llau a Llyngyr yr Iau



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd, 250 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector Cig Coch.



GWELLA
BUSNES

45

UNIGOLYN
WEDI DERBYN
HYFFORDDIANT



HYFFORDDIANT
TECHNEGOL

118

UNIGOLYN
WEDI DERBYN
HYFFORDDIANT



DEFNYDDIO
PEIRIANNAU
AC OFFER

87

UNIGOLYN
WEDI DERBYN
HYFFORDDIANT

E-ddysgu

Dyma rai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

FFRWYTHLONDEBY
FUCHES BIFF



LLYNGYR YR
IAU MEWN



CLAFR DEFAID



CLEFYD JOHNE
MEWN DEFAID



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Podlediad Clust i'r Ddaear

Cafwyd cyfweiliad gyda John Yeomans ar gyfer pedwerydd rhifyn y Podlediad Clust i'r Ddaear a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd. Bu John yn trafod ei brofiad Cyfnewidfa Rheolaeth diweddar yn edrych ar reolaeth tir glas a dosbarthiad carcass.

*Barn John yw hwn, nid barn Cyswllt Ffermio.



Cliciwch yma
i wrando.

